# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 13 Ionawr 2021

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Robert Donovan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddESS@senedd.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat (09.15-09.45)

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor at ddibenion diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.45)

## 2 Papurau i'w nodi

### 2.1 Llythyr gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru parthed: Gweithredu dilynol i gyfarfod y Pwyllgor ar 25 Tachwedd

(Tudalennau 1 - 13)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-01-21- Papur 1 i'w nodi

EIS(5)-01-21- Papur 2 i'w nodi

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 3 Comisiwn Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru

(09.45-10.45) (Tudalennau 14 - 17)

Arglwydd Burns, Cadeirydd Comisiwn Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru

Peter McDonald, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth, Comisiwn Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-01-21- Papur Briffio

## Egwyl (10.45-10.55)

## 4 Gweithio o Bell: Goblygiadau i Gymru - Canolfannau trefol a hybiau cymunedol

(10.55-11.55) (Tudalennau 18 - 25)

Y Cynghorydd Rob Stewart, Arweinydd, Cyngor Dinas a Sir Abertawe

Phil Roberts, Prif Weithredwr, Cyngor Dinas a Sir Abertawe

Gareth Jones, Town Square Spaces Cyf

Mike Scott, IndyCube

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-01-21- Papur Briffio

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(11.55)

## 6 Preifat

(11.55-12.15)

Ystyried tystiolaeth yn dilyn y cyfarfod

**Ken Skates AS/MS**
**Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Minister for Economy, Transport and North Wales**

**Lee Waters AS/MS**
**Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Deputy Minister for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS

Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

4 Ionawr 2021

Annwyl Russell,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 1 Rhagfyr yn dilyn yr wybodaeth ddiweddaraf y cytunwyd i'w darparu yn ystod ein hymddangosiad gerbron y Pwyllgor ar 25 Tachwedd.

Gallwn roi’r cyngor canlynol:

**Cynllun Cyflawni Eiddo Masnachol**

Mae amcangyfrifo costau cyflawni yn gymhleth oherwydd nifer yr elfennau amrywiol dan sylw, megis costau adeiladu ar gyfer gwahanol fathau o eiddo, ansicrwydd ynghylch awydd y sector preifat i ymyrryd yn y ddarpariaeth ac ar ba lefel o gymorth grant, a'r arian sydd ar gael yn barhaus i ddisodli Cronfeydd Datblygu Rhanbarthol Ewrop a allai effeithio ar y gallu i gyflawni drwy fenter ar y cyd â phartneriaid yn y sector cyhoeddus. Mae'r holl ffactorau hyn yn effeithio ar y math o ymyrraeth sy'n angenrheidiol i gyflawni'r rhaglen (hyfforddi staff y rheng flaen, menter ar y cyd, grant datblygu eiddo ar gyfer e.e.) ac sydd â goblygiadau cost gwahanol.

Mae’r amcangyfrif presennol o'r gost o ddarparu £200-250m dros gyfnod o 10 mlynedd yn seiliedig ar dybiaethau bras o'r ffactorau hyn, yn deillio o brofiad o'r mathau o ymyraethau a ddefnyddiwyd ar brosiectau a gyflawnwyd neu sy’n cael eu cyflawni ers cymeradwyo'r Cynllun Cyflawni Eiddo gwreiddiol yn 2018.

**Treth Trafodiadau Tir a Sylfaen drethi ardrethi annomestig (NDR)**

Yn ystod rhan gyntaf 2020-21, dim ond o dan amodau penodol y gallai'r farchnad eiddo preswyl weithredu, gan leihau'r gallu i'r rhan fwyaf o fathau o drafodion eiddo ddigwydd.  Codwyd y cyfyngiadau hyn ar 27 Gorffennaf. Hefyd o'r dyddiad hwnnw

(hyd at 31 Mawrth 2021) cynyddodd trothwy preswyl y Dreth Trafodiadau Tir a gymhwyswyd i'r prif gyfraddau o £180,000 i £250,000 (nid yw'r dreth ar drafodion preswyl cyfraddau uwch wedi newid). O ganlyniad i'r ffactorau hyn, mae refeniw preswyl rhwng mis Ebrill a mis Hydref (y data diweddaraf) wedi gostwng 37% o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

Effeithiwyd ar drafodion a refeniw dibreswyl hefyd. Mae refeniw rhwng mis Ebrill a mis Hydref wedi gostwng 31% o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Fodd bynnag, gall refeniw dibreswyl fod yn gyfnewidiol rhwng misoedd, gyda refeniw ym mis Hydref (y mis diweddaraf sydd ar gael) wedi cynyddu 26% ar Hydref 2019.

Gellir cael rhagor o ystadegau LTT gan StatsCymru yma;

https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Taxes-devolved-to-Wales/Land-Transaction-Tax

Tynnwn eich sylw hefyd at Ddatganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid ar 21 Rhagfyr (https://llyw.cymru/written-statement-welsh-devolved-taxes-and-welsh-rates-income-tax-draft-budget-2021-22) ynghylch codi pob un o fandiau treth cyfraddau preswyl uwch Treth Trafodiadau Tir 1 pwynt canran.

Yn gyffredinol, telir y cyfraddau uwch ar brynu cartrefi nad ydynt yn cael eu prynu, yn gyffredinol, i fod yn brif breswylfa i'r prynwr ond, er enghraifft, i ddarparu ail gartref, yn cael eu defnyddio fel rhan o fusnes gosod gwyliau, neu ar gyfer gosod yn y tymor hwy.

Bydd prynwyr eiddo preswyl sy'n atebol i dalu'r cyfraddau preswyl uwch bellach yn talu 4% ychwanegol (i fyny o 3%) o gost yr eiddo y tu hwnt i'r prif gyfraddau preswyl.

Rydym hefyd yn codi'r trothwy cychwynnol ar y Dreth Trafodiadau Tir a delir ar brynu eiddo dibreswyl 50%. Ni fydd busnesau yn awr, ar y cyfan, yn talu unrhyw dreth ar bryniannau sy'n costio hyd at £225,000.  Bydd hyn yn darparu swm bach ond perthnasol o gymorth ychwanegol i fusnesau.

Mae'r datganiad yn amlinellu mesurau eraill a gynlluniwyd hefyd.

O ran y sylfaen drethi ardrethi annomestig, mae pandemig Covid-19 wedi cael, ac yn parhau i gael effaith negyddol ar fusnesau a sefydliadau eraill ledled Cymru.  Mae'n anochel y bydd y pandemig yn effeithio'n negyddol ar y sylfaen drethi hon.

Mae data'n cael ei gasglu gan awdurdodau lleol yn fisol i asesu'r effaith y mae'r pandemig yn ei gael ar y sylfaen drethi, mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i lywio rhagolwg NDR Llywodraeth Cymru.

Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) yw'r corff statudol sy'n gyfrifol am gynnal prisiadau yng Nghymru.  Mae'n asesu pob eiddo annomestig a domestig at ddibenion treth lleol.  Mae'n un o asiantaethau gweithredol Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ac mae'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Bydd yr ailbrisiad ardrethi annomestig nesaf yn digwydd ar 1 Ebrill 2023. Mae'r ailbrisiad nesaf yng Nghymru yn cyd-fynd ag ailbrisio ardrethi 2023 Llywodraeth y DU.

Rydym yn parhau â'n gwaith o chwilio am ddulliau amgen o ymdrin â'r trethi lleol yng Nghymru dros y tymor hwy a byddwn yn ystyried yr opsiynau ar gyfer ailbrisio ardrethi i Gymru yn y tymor byrrach ochr yn ochr â'r gwaith hwn, gan roi ystyriaeth lawn i'r amgylchiadau o ganlyniad i'r coronafeirws.

**Datblygu Rhanbarthol - Llywodraethu a Llinellau Atebolrwydd**

Bwriedir i'r Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol (REFs) nodi cyfres gyffredin o flaenoriaethau economaidd ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, a fframwaith a rennir ar gyfer eu cyflawni ym mhob un o'r rhanbarthau. Wrth fwrw ymlaen â chyd-ddatblygu'r REFs rydym yn ymwybodol o'r angen i ailosod a'r adferiad uniongyrchol sydd ei angen yn sgil y Coronafeirws ond hefyd yr angen i sefydlu a nodi'r dyheadau tymor hwy ar gyfer rhanbarthau Cymru. Ni fwriedir i REFs ddisodli cynlluniau lleol, na diystyru cynlluniau cenedlaethol fel y rhai sy'n cael eu datblygu ar lefel Cymru gyfan ar gyfer Cronfeydd Strwythurol ar ôl yr UE, neu strategaethau Trafnidiaeth a Thwristiaeth cenedlaethol er enghraifft. Gall REFs, ar y lefel ranbarthol, sicrhau cydategu ac aliniad rhwng cynlluniau a strategaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Wrth nodi cyfres o flaenoriaethau cyffredin y cytunwyd arnynt ar gyfer y rhanbarth, bwriedir i'r REF ddylanwadu ar bolisïau a rhaglenni, yn ogystal â llywio dyraniadau cyllidebol a chynlluniau gwariant gan bob partner. Mae llawer o waith eisoes wedi'i wneud gan bartneriaid rhanbarthol sy'n berthnasol, a bydd hyn yn sylfaen gadarn y gallwn adeiladu arni ar y cyd. Mae'r amgylchiadau presennol wedi gohirio cyd-ddatblygu'r REFs gyda'n partneriaid rhanbarthol yn ddieithriad, wrth i'n ffocws a'n blaenoriaethau orfod delio â'r Coronafeirws. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor wrth i'r gwaith gyda rhanddeiliaid barhau

Ar wahân i hynny, yn dilyn lansio adroddiad yr OECD ar 17 Medi ac ystyried yr ymgysylltiad helaeth â rhanddeiliaid ar y camau nesaf, cytunwn ein bod yn parhau i weithio gyda'r OECD yn 2021 wrth ystyried ei argymhellion ar gyfer buddsoddi cyhoeddus. Bydd ymateb i'r argymhellion ar ôl y gweithgaredd hwn.

**Tata Steel**

Ers i'r Prif Weinidog ysgrifennu at y Prif Weinidog ar 13 Tachwedd ynghylch dur TATA, cafwyd trafodaethau adeiladol rhyngof fi a Gweinidogion BEIS. Mae ein huwch swyddogion hefyd wedi cyfarfod i gytuno ar drefniadau ar y cyd ar gyfer ystyried sut y gellir manteisio i'r eithaf ar gymorth i ddur TATA o bolisau'r llywodraeth a pha gymorth ychwanegol allai fod ei angen

Ysgrifennodd Prif Weinidog Cymru at Brif Weinidog y DU ar 21 Rhagfyr, cyn cael ateb i'w lythyr cychwynnol, gan danlinellu pwysigrwydd y trafodaethau hyn a cheisio sicrwydd bod Llywodraeth y DU yn cydnabod pwysigrwydd strategol y fenter hon i'r DU gyfan.

**Banc Cymunedol i Gymru**

Mae nodiadau'r cyfarfod yn Fasnachol Gyfrinachol ac yn anffodus, nid yw golygu'r elfennau hyn yn ymarferol.

Fodd bynnag, yn Atodiad 1 amgaewn nodyn ar gynnydd Cambria Cydfuddiannol Ltd (CCL).

Gwelwch bod CCL wedi cynnig rhoi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor yn y dyfodol agos.

**Rhaglen Brentisiaethau**

Mae'n hanfodol bod cynnwys fframweithiau prentisiaeth yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i ddiwallu anghenion cyflogwyr ar draws ein holl sectorau sgiliau. Er mwyn cyflawni hyn, rydym wedi rhoi trefniadau ar waith lle caiff fframweithiau eu hadolygu dros gylch tair blynedd i sicrhau eu bod yn parhau i ymateb i safonau technegol a diwydiant sy'n newid. Lle mae newid yn gyflymach, er enghraifft yn y sector digidol, gellir cynnal adolygiadau yn gynt i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'r diben. Mae adolygiadau wedi'u blaenoriaethu ar sail aliniad â blaenoriaethau cenedlaethol, effaith gadael yr UE a'r rhai lle mae cymwysterau'n cyrraedd eu dyddiadau gorffen.

Mae'r broses o adolygu fframweithiau ei hun yn seiliedig ar ymgysylltu â chyflogwyr a'r sector, lle mae'n ofynnol i ddatblygwr fframwaith a gomisiynir ymgynghori â rhanddeiliaid (gan gynnwys cyflogwyr, cyrff y sector, darparwyr hyfforddiant a chyrff dyfarnu) i lunio adroddiad o dystiolaeth rhanddeiliaid. Mae arbenigwr technegol annibynnol yn sicrhau ansawdd y fframwaith drafft dilynol a chyflwynir y fframwaith terfynol i Lywodraeth Cymru, sy'n gweithredu fel yr Awdurdod Cyhoeddi, ble y profir tystiolaeth o gydymffurfio â safonau rheoleiddio ac ymgynghori â'r sector.

Bydd Bwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru yn parhau i ddarparu cyngor ac argymhellion ar fframweithiau prentisiaethau i'w datblygu, gan gynnwys symleiddio'r ffurf ar gyfer sectorau galwedigaethol a llwybrau ar gyfer prentisiaethau yng Nghymru. Y sectorau rydym yn eu hadolygu yn 2020-21 yw:

- Bwyd a Diod
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Gofal Plant
- Amaethyddiaeth a'r Amgylchedd
- Gofal Iechyd
- Modurol, Trafnidiaeth a Logisteg
- Gwasanaethau Cyfreithiol ac Ariannol
- Lletygarwch ac Arlwyo

Mae'r model Prentisiaeth a Rennir yn parhau i ddarparu cyfleoedd i brentisiaid mewn sectorau ac ardaloedd â blaenoriaeth, megis yn y Cymoedd. Ar hyn o bryd, mae cynlluniau Rhannu Prentisiaethau yn cefnogi'r diwydiannau adeiladu a pheirianneg, yn ogystal â Lletygarwch.  Mae pob cynllun Prentisiaeth a Rennir yn dilyn proses gymeradwyo benodol, lle caiff achos busnes a gymeradwywyd gan Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ei gyflwyno gan y cynigydd i Lywodraeth Cymru. Yna asesir yr achos busnes yn erbyn ein protocol Rhannu Prentisiaethau, gan gynnwys a yw'r cynllun yn diwallu anghenion y farchnad, yn darparu gwerth ychwanegol a chynaliadwyedd. Mae Prentisiaethau a Rennir wedi ysgogi ymgysylltiad cyflogwyr ac wedi creu cyfleoedd ar gyfer Prentisiaethau. Mae Prentisiaethau a Rennir yn debygol o gynorthwyo adferiad economaidd mewn sectorau galwedigaethol allweddol. Felly, mae swyddogion yn adolygu Modelau a rennir yng nghyd-destun y pandemig.

**Porthladdoedd a Meysydd Awyr: Brexit a Covid-19**

Fe wyddoch bod y rhain yn sefyllfaoedd sy'n datblygu'n gyflym.

Mae Model Gweithredu Ffiniau'r DU yn fater a gadwyd yn ôl. Lle mae'r model hwnnw'n effeithio ar swyddogaethau Gweinidogion Cymru, a chymunedau yng Nghymru, rydym yn ceisio rheoli a lliniaru ei effaith.

Cyflwynir archwiliadau ar y ffin ar nwyddau fesul cam dros gyfnod o chwe mis. Bydd rhai gwiriadau CThEM, yn bennaf ar nwyddau sy'n cael eu cludo i'r UE, yn cael eu cyflwyno o 1 Ionawr. Bydd gwiriadau eraill ar nwyddau mewnol yn cael eu cyflwyno fesul cam hyd at fis Gorffennaf 2021.

Mae Llywodraeth y DU wedi cytuno i ddarparu safle mewndirol amlswyddogaethol parhaol i wasanaethu porthladd Caergybi, a fydd yn cynnwys seilwaith Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a Safle Rheoli Ffiniau i ymdrin â gwiriadau ar gynhyrchion anifeiliaid a phlanhigion. Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am archwiliadau iechydol a ffytoiechydol neu "SPS". Mae disgwyl i'r archwiliadau hyn gael eu cyflwyno ym mis Gorffennaf 2021.

O ran Caergybi, nod ein cynlluniau wrth gefn yw tarfu cyn lleied â phosibl ar y porthladd a chymunedau lleol Caergybi ac Ynys Môn.

Mae'r sefyllfa waethaf resymol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU yn nodi y gellid gwrthod 40% i 70% o'r cerbydau nwyddau trwm sy'n cyrraedd porthladdoedd ar ôl diwedd y Cyfnod Pontio gan nad oes ganddynt y dogfennau cywir

Mae gwrthlif dros dro wedi'i roi ar waith ar yr A55 rhwng cyffyrdd 2 i 4 o 28 Rhagfyr fel rhan o gynlluniau wrth gefn Llywodraeth Cymru i darfu cyn lleied â phosibl, tra'n parhau i ganiatáu mynediad i'r porthladd yn ogystal â chaniatáu i'r gymuned leol symud yn rhwydd.

Bydd cwmnïau fferi yn ei gwneud yn ofynnol i gwsmeriaid cludo nwyddau ar y ffordd i Iwerddon gysylltu gwybodaeth am dollau â'u harcheb ac os byddant yn cyrraedd heb wneud hynny ni fyddant yn gallu mynd i mewn i'r porthladd. Bydd yr holl gerbydau

nwyddau trwm sy'n cael eu gwrthod yn y porthladd yn cael eu cyfeirio'n ôl i'r gwrthlif dros dro ar gyffordd 4 ar yr A55 lle byddant yn ymuno â'r gerbytffordd tua'r gorllewin i naill ai gael eu hailgyfeirio i safleoedd eraill oddi ar Gyffordd 2 i'w pentyrru wrth iddynt gael trefn ar eu gwaith papur, neu os nad oes lle ar y safleoedd hyn byddant yn cael eu pentyrru yma pan fetho popeth arall.

Rydym wedi edrych yn gyflym ar opsiynau o ran cynllunio, paratoi a defnyddio safleoedd addas yng Nghaergybi ar gyfer pentyrru cerbydau nwyddau trwm sydd ar y ffordd allan ac ar gyfer safle mewndirol amlbwrpas Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a fydd yn gwasanaethu porthladd Caergybi.

Cyfarfu Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth ag Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn ar 17 Tachwedd i drafod yr oedi gyda’r traffig wrth agosáu at Borthladd Caergybi a ffyrdd o liniaru'r oedi hwn o’r 1 Ionawr.

O ran porthladdoedd Penfro ac Abergwaun, mae cyfrifoldebau penodol Llywodraeth Cymru yn ymwneud â gwiriadau SPS a gynhaliwyd mewn ardal sydd wedi'i hadeiladu'n arbennig a ddynodwyd yn Safle Rheoli Ffiniau (BCP). Mae'r gwiriadau hyn yn chwarae rhan bwysig o ran diogelu bioddiogelwch Cymru a'r DU. Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cyflwyno gwiriadau SPS o’r 1 Gorffennaf 2021, amserlen hynod heriol.

Fel arfer, mae BCP wedi’u lleoli ochr yn ochr â chyfleusterau CThEM mewn Cyfleuster Ffiniau Mewndirol. Fodd bynnag, daeth CThEM i'r casgliad yn ddiweddar y gellid cynnal eu gwiriadau yn y porthladdoedd eu hunain. Felly, yr ydym mewn sefyllfa unigryw yn Ne-orllewin Cymru o ran y ffaith mai dyma'r unig BCP annibynnol yn y wlad ar hyn o bryd ac nad yw Llywodraeth y DU yn rhan o hyn.

Mae Llywodraeth y DU wedi ein rhoi mewn sefyllfa amhosibl lle cawsom wybod mai ni oedd yn gyfrifol am ddarparu'r cyfleuster hwn gyda tua 9 mis i fynd tan y mae'n rhaid iddo fod yn weithredol.

Er hynny, rydym wedi paratoi adnoddau i helpu i gyflawni hyn ac ar hyn o bryd rydym yn ymchwilio i nifer o safleoedd posibl gyda'n rhanddeiliaid ac yn symud yn gyflym i gyflawni cyn gynted ag y gallwn.

Mewn mannau eraill, mae Maes Awyr Caerdydd wedi ymgysylltu'n llawn â ni a sefydliadau Llywodraeth y DU ar baratoadau.

Mae teithiau hedfan yn parhau fel arfer gan gwmnïau awyrennau'r DU ac Ewrop. Ni fydd unrhyw newidiadau i weithdrefnau Diogelwch oherwydd rheoliadau wrth gefn unochrog

Ni fydd unrhyw newidiadau sylweddol i'r Ffin. Byddai dinasyddion yr UE yn parhau i fod yn gymwys i ddefnyddio Gatiau ePasbort. Bydd newidiadau gweledol yn cynnwys y sianel 'las' yn cael ei dileu a dim ond eitemau 'Gwyrdd' dim i'w ddatgan a 'coch' eitemau i’w datgan fydd y sianeli fydd ar gael

Bydd newidiadau i siopa di-dreth a di-doll.

Yn gywir



**Ken Skates AS**

Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru



**Lee Waters AS**

Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

**Atodiad 1**

**Nodyn briffio gan 'Cambria Gydiannol Cyf (CCL)**

'Cymdeithas Gydweithredol yw Cambria Cydfuddiannol Ltd (CCL), sydd wedi'i chofrestru o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014. Roedd y Ddeddf hon yn caniatáu i Gymdeithasau Cydweithredol weithredu banc cymryd blaendal trwyddedig am y tro cyntaf. CCL yw'r corff sy'n datblygu Banc Cymunedol i Gymru ac mae'n cael ei gefnogi'n ariannol gan Lywodraeth Cymru ac mae'n gweithio gyda chefnogaeth Cymdeithas Banc Arbedion Cymunedol (CSBA) a Chymdeithas Frenhinol y Celfyddydau a Gwyddoniaeth (RSA).

Ein hamcangyfrifon gwreiddiol ar gyfer datblygu o gynllunio busnes cychwynnol i drwydded gyfyngedig oedd tua 2 flynedd, gyda thrwydded lawn yn dilyn 6 mis yn ddiweddarach. Roedd hyn yn seiliedig ar gyngor gan y CSBA. Fodd bynnag, wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau ein hunain ac wrth gyd-fynd gyda cynlluniau'r banciau egin eraill sy'n ymddangos mewn rhannau eraill o'r DU (Avon Mutual a South West Mutual, yn arbennig, a oedd tua blwyddyn o'n blaenau wrth gynllunio), rydym yn ailbennu yr amserlenni, i adlewyrchu sefyllfa mwy tebygol y mae modd ei chyflawni. Roedd yr amserlenni newydd hyn (a amcangyfrifwyd bedair blynedd o 2019) hefyd yn adlewyrchu'r cyngor diweddaraf gan Uned Dechrau Banc Newydd Banc Lloegr (a oedd wedi trwyddedu dros 100 o fanciau Ewropeaidd yn ddiweddar oedd yn gwneud cais am drwyddedau bancio'r DU).

Mae dau effaith mawr ar drwyddedu – yn gyntaf (ac yn amlwg) mae'n cynyddu'r cyfnod hyd at farchnata cynnyrch, a daeth ein Bwrdd i'r casgliad ei fod yn gyfle a gollwyd (yn fasnachol ac yn gymdeithasol) a byddai hefyd wedi ychwanegu'n sylweddol at y costau sy'n gysylltiedig â'r prosiect ac o bosibl ofynion cyfalaf.

Felly, rydym wedi ceisio mecanwaith i gwtogi'r broses honno'n sylweddol, a rhagwelwn y gallwn gyhoeddi amserlen fanwl yng Ngwanwyn 2021. Mae'r mecanwaith hwn yn fasnachol gyfrinachol, ac ni allwn ddarparu rhagor o fanylion ar hyn o bryd, ac eithrio dweud ein bod ar y trywydd iawn ar gyfer yr amserlen hon, ac ni fydd yn newid ein statws cydfuddiannol a chydweithredol. Yn wir, bydd yn cyflawni holl elfennau'r cynnig a amlinellwyd gennym i'r Pwyllgor y llynedd, gan gynnwys nifer y siopau a drafodwyd gennym yn flaenorol.

Fel y cyfeiriodd y Gweinidog ato yn ei atebion i'r Pwyllgor, credwn fod dechrau'r pandemig wedi creu mwy o angen am Fancio Cymunedol nag o'r blaen. Rydym wedi dychwelyd at gadwyni cyflenwi mwy lleol ac yn disgwyl mwy gan ein trefi a'n pentrefi agos – nid oes gan y banciau treftadaeth y gallu i wasanaethu'r anghenion hyn gan eu bod wedi cael gwared ar rannau enfawr o'u rhwydwaith canghennau yng Nghymru, ac yn parhau i wneud hynny. Mae gennym fantais hefyd gan y gallwn ddatblygu ein gweithrediadau fel y gallant wrthsefyll digwyddiad tebyg i Covid-19 yn y dyfodol. Ar y gorau, mae'n rhaid i weithredwyr presennol addasu a gwneud y gorau o’r sefyllfa.

Nodwn y sylwadau ar gyllid grant, a gallwn gadarnhau bod y Gweinidog yn gywir ein bod wedi derbyn £165K hyd yma gan Lywodraeth Cymru. Pan roesom dystiolaeth i'r Pwyllgor y llynedd, cyfeiriwyd at ofyniad cyfalafu amcangyfrifedig o £20M (buddsoddiad masnachol). Mae'n debygol y daw'r cyfalafu i mewn o dan y ffigur hwn ac nid ydym yn rhagweld y bydd angen rhagor o gyllid grant i gefnogi'r prosiect.

Byddem yn hapus i roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor yn y dyfodol agos.’

Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau**
—
Welsh Parliament
**Economy, Infrastructure and Skills Committee**

Ken Skates AS: Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd

Lee Waters AS: Diprwy Weinidog yr Economi a Trafnidiaeth

02 Rhagfyr 2020

Annwyl Ken a Lee,

Diolch am ddod i gyfarfod Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar 25 Tachwedd. Mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi'n fawr eich bod chi a'ch swyddogion wedi rhoi dwy awr o'ch amser y tro hwn. Caniataodd hyn inni gynnwys y nifer sylweddol o faterion sydd wedi codi ers ein sesiwn graffu ddiwethaf ar waith y Gweinidog ym mis Chwefror. Roedd yn sesiwn hynod ddefnyddiol, ac rwy'n ysgrifennu i fynd ar drywydd ychydig o faterion.

**Cynllun Cyflenwi Eiddo Masnachol**

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod Adroddiad SQW 'Dadansoddiad o'r Farchnad ac Ymyriadau Posibl' dyddiedig Mawrth 2020 ac a gyhoeddwyd ym mis Awst, yn disodli'r Cynllun Datblygu Eiddo ac mai hwnnw yw'r cynllun datblygu eiddo bellach. Roedd gan y Pwyllgor rai pryderon ynghylch yr honiad nad yw effaith y pandemig ers paratoi'r adroddiad hwnnw wedi cael effaith sylweddol ar y rhagdybiaethau a wnaed. Fel y nodwyd yn y cyfarfod, mae'r sefyllfa o ran gormodedd a phrinder gwahanol fathau o eiddo masnachol yn amrywio'n fawr mewn gwahanol rannau o Gymru, ac mae angen cynnwys cynigion gweithio o bell Llywodraeth Cymru hefyd yng nghynlluniau'r dyfodol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn sylweddoli bod y sefyllfa o ran galw yn y sector preifat yn dal i fod yn gyfnewidiol ac ansicr, a bydd y wybodaeth ddiweddaraf am hyn yn 2021 yn ddefnyddiol i'r pwyllgor olynol. Yn y cyfamser byddai'r Pwyllgor yn croesawu cael rhagor o fanylion am y costau sydd bellach ynghlwm wrth y cynllun datblygu eiddo, gyda'r bwriad o fynd ar drywydd hyn ymhellach wrth gynnal gwaith craffu ar y gyllideb. Mae hefyd yn croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog am y datblygiadau o ran y cynnig Cyfrwng Datblygu â Chefnogaeth Asedau.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddESS@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEIS@senedd.wales
0300 200 6565

Mae'r Pwyllgor hefyd yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidog wedi addo gofyn i swyddogion Cyllid anfon rhagor o wybodaeth am yr effaith ar dderbyniadau'r Dreth Trafodiadau Tir a newidiadau mewn gwerth ardrethol o ganlyniad i'r pandemig.

### Datblygu Rhanbarthol – Llywodraethu a Llinellau Atebolrwydd

Trafodwyd rôl a swyddogaeth yr amrywiol gyrff ac asiantau sy'n ymwneud â chynllunio a chyflawni datblygiad rhanbarthol - y Prif Swyddogion Rhanbarthol, awdurdodau lleol, byrddau Bargeinion Dinesig a Thwf, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol newydd, Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cymru. Dywedwyd wrthym hefyd fod yr angen am Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol bellach wedi ei adael ar ôl, a bod symudiad enfawr o ran datblygu Cyd-bwyllgorau Crofforaethol. Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at gael y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog am ei benderfyniad ynghylch statws y Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol ar ôl ymgynghori â'r Prif Swyddogion Rhanbarthol a rhanddeiliaid rhanbarthol.

Gyda'r holl haenau lluosog hyn o wneud penderfyniadau a darparu gweithgareddau gydag adnoddau cyfyngedig, bydd yn bwysig i'r Pwyllgor hwn, a'i olynydd, gael sicrwydd ynghylch cadernid dulliau monitro a gwerthuso canlyniadau, a sicrhau bod yna linellau clir o atebolrwydd a dulliau craffu tryloyw i ddwyn y rhai sy'n gyfrifol am gyflawni i gyfrif. Bydd y Pwyllgor yn trafod adroddiad diweddar y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ar Fuddsoddi Rhanbarthol gyda'i awdur ar 2 Rhagfyr, a bydd yn croesawu'r cyfle hwnnw i glywed ei barn ar y materion llywodraethu hyn.

### Tata Steel

Roedd y Pwyllgor yn ddiolchgar am ddiweddariad y Gweinidog ar y sefyllfa ond yn bryderus o glywed nad oes perthynas gref â'r Ysgrifennydd Busnes ei hun ar hyn o bryd, er bod y berthynas rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) yn gryf ac yn adeiladol, ac y cafwyd cysylltiad da a rheolaidd gyda Nadhim Zahawi, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros BEIS ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Mae'r Pwyllgor yn gobeithio y bydd y berthynas a'r ddeialog hon yn gwella o ystyried yr angen brys i ymateb i gyhoeddiad diweddar Tata a'r goblygiadau i economi a chymunedau Cymru.

### Banc Cymunedol i Gymru

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidog wedi addo gofyn i'r corff sy'n gyfrifol am sefydlu'r banc, Cambria Cydfuddiannol Ltd, ddarparu nodyn briffio llawn i'r Pwyllgor ar statws y broses drwyddedu reoleiddiol i sefydlu'r banc, yr amserlenni y maent bellach yn gweithio iddynt, a'u barn ar yr uchelgais wreiddiol o agor 50 o ganghennau ledled Cymru. Dywedodd y Gweinidog hefyd y byddai'n rhoi gwybod i'r Pwyllgor a allai ddarparu cofnodion cyfarfodydd y mae ef a'r Prif Weinidog wedi'u cynnal gyda Cambria Cydfuddiannol Ltd, yn amodol ar unrhyw waith ail-olygu gwybodaeth fasnachol gyfrinachol y gallai fod angen ei wneud.

**Rhaglen brentisiaeth**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidog wedi ysgrifennu'n ôl gyda gwybodaeth lawn am y sefyllfa o ran y model rhannu prentisiaeth. Roedd y Pwyllgor yn siomedig yn y diffyg cynnydd gyda'r Adolygiad Fframwaith Prentisiaethau, gan nodi y bu blwyddyn ers i'r ymgynghoriad ddod i ben, ac y bydd yn cymryd blynyddoedd lawer i adolygu a recriwtio nifer sylweddol o brentisiaid newydd i fframweithiau adolygedig. Byddai'n ddefnyddiol i'r Pwyllgor gael manylion pellach am sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu mynd ati i adolygu fframweithiau a darparu adnoddau ar gyfer gwneud hynny. Yn ôl profiad, bydd y dasg yn un sylweddol sy'n gofyn am wybodaeth ddwys. Mae angen cyflwyno fframweithiau ar frys a fydd yn rhoi'r mynediad gorau i'r farchnad lafur i bobl ifanc. Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed bod yr ymarfer caffael ar gyfer y rhaglen newydd ar y trywydd iawn ar gyfer mis Mawrth 2021.

**Porthladdoedd a Meysydd Awyr: Brexit a Covid-19**

Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at gael y nodyn briffio a addawyd ar yr holl atebion arfaethedig ar gyfer porthladdoedd yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas â rheoli traffig, ar ddiwedd cyfnod pontio'r UE ar 31 Rhagfyr 2020.

**Cynllun Brys ar gyfer Bysiau**

Cytunodd y Dirprwy Weinidog hefyd i rannu'r llythyr at weithredwyr bysiau yn nodi'r cytundeb yr ymrwymwyd iddo, ac mae'r Pwyllgor hefyd yn edrych ymlaen at gael y wybodaeth hon.

Diolch yn fawr eto am roi o'ch amser yn y Pwyllgor ac am eich ymatebion llawn a gonest i'n cwestiynau.

Cofion cynnes,

Russell George AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

# Eitem 3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 4

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon